| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 6 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi 2025.

2. Rhaglenwyd yr eitem ‘Adolygiad o’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur’ ar gyfer y cyfarfod yma. Derbyniwyd cais i lithro’r eitem i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Ionawr 2026 oherwydd bod gwaith pellach i’w wneud cyn cyflwyno’r eitem i’r Pwyllgor.

3. Derbyniwyd cais yn ogystal gan aelod o’r cyhoedd i graffu materion yn ymwneud â materion ariannu yn gysylltiedig â’r Cynllun. Mae’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd wedi ystyried y cais ac wedi dod i’r casgliad gan fod materion ariannu yn rhan o’r adolygiad, y byddai’n amserol ystyried y materion dan sylw ar yr un pryd. Estynnir gwahoddiad i’r unigolyn i gyfarfod y Pwyllgor er mwyn rhoi cyfle i ymhelaethu ar y cais pe byddent yn dymuno.

4. Byddai ail-raglennu’r eitem yn galluogi craffu amserol cyn i’r Cabinet wneud penderfyniad. Os yw’r Pwyllgor yn ail-raglennu’r eitem yn unol â’r uchod, bydd pedair eitem wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 22 Ionawr 2026.

5. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26.

6. **Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2025/26

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **5/6/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **18/9/25** | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2024/25 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Trefniadau Graeanu a Biniau Halen | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 28 Medi 2022 |
| | | |
| **6/11/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **22/1/26** | • Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gweithrediad Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Teithio Llesol | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | | |
| **19/3/26** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Llwybrau Cyhoeddus | Sicrwydd o ran gweithrediad |

**Eitem wrth gefn -** Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth